**Alun Davies AC / AM**
**Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd**
**Minister for Natural Resources and Food**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-04-544
Ein cyf/Our ref AD-/00911/14
William Powell AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

10 Mehefin 2014

Annwyl Bill,

**Deiseb P-04-544 Gwahardd Saethu Gwyddau Talcenwyn yr Ynys Las**

Diolch yn fawr am eich llythyr dyddiedig 30 Mai ynghylch yr uchod. Rwyf eisoes yn gyfarwydd â'r safbwyntiau a fynegir am y ddeiseb hon ac fe'u cymerais i ystyriaeth y llynedd yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y pwnc hwn. Yn hytrach na chyflwyno deddfwriaeth i wahardd saethu ar draws Cymru gyfan, penderfynais gymeradwyo'r moratoriwm gwirfoddol presennol ar saethu yn Aberoedd Afonnau Dyfi, Dysynni a Mawddach. Rwyf hefyd wedi ymdrechu i ehangu'r moratoriwm ac annog partneriaid i weithio gyda'i gilydd i wella'r amodau ar lawr gwlad i'r adar mudol hyn.

Yr unig safle arwyddocaol i Wyddau Talcenwyn yr Ynys Las (GTYL) yng Nghymru yw Aber Afon Dyfi, sydd wedi ddynodi'n Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA) ar gyfer y rhywogaeth hon o dan Gyfarwyddeb Adar yr UE. Mae'r gwyddau'n hedfan dros rannau o Ynys Môn a Gogledd-orllewin Cymru wrth fudo yno.

Mae fy swyddogion wedi bod yn gweithio gyda Phanel Ymgynghorol Rheoli Adar Dŵr Dyfi sy'n cynnwys cynrychiolwyr o gymdeithasau Adar Dŵr Gogledd a Gorllewin Cymru, yr RSPB a Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r Panel wedi cyflwyno nifer o gamau gweithredu eleni, gan gynnwys y canlynol:

1) Gwella'r dulliau o gofnodi a rhannu data;

   i) Datblygwyd a darparwyd taflenni penodol ar gyfer cofnodi'r GTYL a welir yng Nghymru. Caiff y taflenni hyn eu cyflwyno i Gymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain eu cydgasglu.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Alun.Davies@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

ii) Rhannu'r data newydd hyn a'u cyfuno gyda data cyfredol a hanesyddol yr RSPB er mwyn sicrhau bod y cynigion i reoli cynefinoedd yn canolbwyntio ar y dystiolaeth orau sydd ar gael o dueddiadau ymddygiad yr adar.

2) Gwella'r ddealltwriaeth o'r berthynas rhwng y safleoedd clwydo craidd a thirlun ehangach Cymru;

   i) Datblygwyd a chyflwynwyd cynigion ar gyfer tracio GTYL yn electronig y gaeaf nesaf.

3) Ehangu'r moratoriwm;

   i) Ehangwyd y moratoriwm gwirfoddol i gynnwys holl sefydliadau Hela Adar Dŵr Cymru sydd ar lwybrau hedfan GTYL i'r gogledd o Afon Dyfi; mae'r gwaith yn parhau i ehangu'r trefniant gwirfoddol hwn ymhellach ar draws Cymru.

Gwahoddir aelodau o'r cyhoedd i fynd ar-lein i gofnodi unrhyw Wyddau Talcenwyn yr Ynys Las a welant ar dudalen Facebook yr astudiaeth o'r Gwyddau https://www.facebook.com/greenlandwhitefront.

Er bod ymwybyddiaeth uchel a gwyliadwraeth a monitro clos, ni chafwyd unrhyw gofnod o saethu Wyddau Talcenwyn yr Ynys Las yng Nghymru am o leiaf ddegawd, ac ychydig iawn cyn hynny. O gofio mai'r helwyr adar dŵr eu hunain sydd wedi cyflwyno'r gwaharddiad gwirfoddol ar saethu gwyddau gwyllt ar Afon Dyfi a'i fod wedi aros mewn grym am y 40 mlynedd diwethaf, nid wyf yn credu y byddai'r cymdeithasau hyn yn codi'r gwaharddiad heb roi ystyriaeth ddyledus i'r mater.

O ystyried dosbarthiad daearyddol GTYL yng Nghymru a'r cydweithio da sy'n digwydd, ni welaf unrhyw reswm dros adolygu fy safbwynt. Ond byddwn yn barod i ailystyried pe cawn i dystiolaeth gref o gynnydd yn nifer y gwyddau talcenwyn sy'n cael eu saethu.

Yn gywir

**Alun Davies AC**
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd

**Alun Davies AC / AM**
**Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd**
**Minister for Natural Resources and Food**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-04-544
Ein cyf/Our ref AD-/00911/14
William Powell AM
Chair Petitions Committee
Ty Hywel
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

10 June 2014

Dear Bill,

**Petition P-04-544 Ban on the Shooting of Greenland White-fronted Geese.**

Thank you for your letter of 30 May regarding the above. I am already familiar with the views expressed in this petition and took them into consideration following public consultation on the subject last year. Rather than introduce legislation to ban shooting across the whole of Wales I took the decision to endorse the existing voluntary shooting moratorium on the Dyfi, Dysynni and Mawddach estuaries. I have also sought to expand the moratorium and encourage relevant partners to work together to improve conditions on the ground for these migratory birds.

The only remaining site of significance for Greenland White-fronted Geese (GWfG) in Wales is the Dyfi estuary which is designated as a Special Protection Area (SPA) for this species under the EU Birds Directive. Parts of Anglesey and north-west Wales are on its migratory flight path.

My officials have been working with the Dyfi Wildfowl Management Advisory Panel, which includes representatives of wildfowling associations from west and north Wales, the RSPB and Natural Resources Wales. The panel has initiated a number of actions this year including:-

1) Improved data recording and sharing;

   i) Developed and provided specific recording sheets for Welsh sightings of GWfG for submission to and collation by the British Association for Shooting and Conservation.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Alun.Davies@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

    ii) Shared and combined this new data with current and historic RSPB data to ensure habitat management proposals are focused on the best available evidence on trends in behaviour.

2) Better understanding of relationships between core roosting sites and the wider landscape of Wales;

    i) Developed and submitted proposals to electronically track GWfG during the coming winter.

3) Expansion of the moratorium;

    i) The voluntary moratorium has been expanded to all Welsh wildfowling organisations on GWfG flight-paths north of the Dyfi; work continues to extend that voluntary coverage more widely across Wales.

Members of the public are also able to register sightings on-line via the Greenland White-fronted Goose study facebook page https://www.facebook.com/greenlandwhitefront.

Even though there has been a high level of vigilance, awareness and monitoring, there are no official records of GWfG being shot in Wales for at least the last decade, and very few before that. Given the wildfowlers themselves instigated the voluntary ban on shooting grey geese on the Dyfi, and that it has remained in place for the last 40 years, I do not believe the associations would lift their restrictions without all due consideration.

In light of the geographic distribution of GWfG in Wales and the good progress in joint working, I see no reason to review my position. I would however be prepared to reconsider if I received robust evidence of a rise in actual shooting of these birds.

Yours ever
Alun

**Alun Davies AC / AM**
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd
Minister for Natural Resources and Food